# Y CYNGOR, 28/02/08

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Meinir Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** S W Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alun Wyn Evans, Tomos Evans, W A Evans, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Huw Price Hughes, Richard Parry Hughes, R J Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Dafydd Iwan, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Arwel Jones, Brian Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, E Meinir Jones, Henry Jones, Iris Margretta Jones, John Gwilym Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, R Morris Jones, W Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, Bill Lovelock, J W Meredith, W.M.Meredith, Godfrey Northam, Glyn Owen, M Sol Owen, W.Roy Owen, W Tudor Owen, Gerald Parry, Arwel Pierce, Emyr Pugh, D H Roberts, Caerwyn Roberts, Ieuan Roberts, Liz Saville Roberts, W Gareth Roberts, Jean Roscoe, Kathleen Thomas, M. L.Vaughan, Alan Williams, Ann Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams Owain Williams ac R H Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams (Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Strategol - Datblygu), D P Lewis (Cyfarwyddwr Strategol - Gofal), Dewi V Rowlands (Cyfarwyddwr Strategol - Amgylchedd), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Geraint George (Pennaeth Polisi a Pherfformiad), Gwen Carrington (Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol), Gareth Wyn Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu), Ian Mowatt (Uwch Reolwr Caffael ac Effeithlonrwydd), Richard Jones (Rheolwr Craffu Corfforaethol), Meinir Owen (Rheolwr Effeithlonrwydd Corfforaethol), Catherine Roberts (Uwch Swyddog Cymunedol) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr R Glyn Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, J R Jones, June Jones, June Marshall, Trevor Roberts, Dyfrig Siencyn ac Ernest Williams

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Emyr Pugh

**2 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2007 fel rhai cywir.

## 3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn yr eitem frys - Gwasanaeth Dydd Anableddau Dysgu Arfon - Canolfan Segontium a Chynllun Cymunedol Arfon oherwydd y rhesymau a nodir, a gadawsant y siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem:-

(i) Y Cynghorydd Huw Price Hughes oherwydd bod aelod o'r teulu ar staff y Ganolfan

(ii) Y Cynghorydd Dafydd Iwan oherwydd bod perthynas iddo yn un o ddefnyddwyr y Ganolfan

(iii) Y Cynghorydd Linda Wyn Jones oherwydd ei bod yn Gyfarwyddwraig Cwmni Seren sy'n darparu gwasanaeth dydd i bobl ag anableddau dysgu

## 4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(i) Cydymdeimlwyd â'r canlynol eu profedigaeth:-

Y Cynghorydd R H Wyn Williams ar golli ei frawd;
Y Cynghorydd Gwilym Williams ar golli ei chwaer;
Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones ar golli ei fam.

Nodwyd mai gyda thristwch mawr y clywyd am farwolaeth ddisymwth Kevin Cooper - disgybl ym Mlwyddyn 10 yn Ysgol Coed Menai, Bangor, ac estynnwyd cydymdeimlad dwysaf i'w deulu a'i ffrindiau ar adeg drist ac anodd.

Hefyd mynegwyd cydymdeimlad â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(ii) Dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Gwen Griffith oedd wedi ei chymryd i'r ysbyty ddechrau'r wythnos

(iii) Llongyfarchwyd Guto Puw, darlithydd mewn Cyfansoddi yn Ysgol Gerddoriaeth Prifysgol Bangor a Chyfansoddwr preswyl Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ar ennill Gwobr fawreddog Cyfansoddwr Prydeinig 2007 y BBC.

Eglurodd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor presennol, a diolchodd i aelodau a swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Diolchodd hefyd am eu gwaith caled, a dymunwyd yn dda iddynt oll i'r dyfodol.

Ategodd y Prif Weithredwr ei ddiolch yntau, a mynegodd werthfawrogiad o'r cydweithio da rhwng aelodau a swyddogion.

Diolchodd hefyd i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

## 5 MATERION BRYS

Nid oedd y mater Gwasanaeth Dydd Anableddau Dysgu Arfon - Canolfan Segontium a Chynllun Cymunedol Arfon wedi ei nodi ar raglen y Cyngor oherwydd bod y nifer priodol o enwau oedd yn galw am gyfeirio'r mater yn uwch, yn unol â Rheol Gweithdrefn 21, wedi dod i law ar ôl dosbarthu'r rhaglen. Penderfynodd y Cadeirydd ganiatáu'r eitem o dan Adran 100(4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd bod angen trafod y mater mor fuan â phosibl, ac nid oedd cyfarfod dilynol o'r Cyngor tan fis Mai. Penderfynodd ystyried yr eitem o flaen y rhybudd o gynnig.

## 6 CWESTIYNAU

### (i) Cwestiwn gan y Cynghorydd J W Meredith

"Faint o weithiau mae'r Cyngor wedi defnyddio'r hawl i glustfeinio ar gyfathrebiad/gohebiaeth trigolion y Sir?"

**Ateb y Cynghorydd Tomos Evans, Arweinydd Portffolio Adnoddau**

"Diolch am y cwestiwn.

Deallaf fod y cwestiwn yn deillio o erthygl yn y "Daily Telegraph" dan y pennawd "Phones tapped at the rate of 1,000 a day". Cadarnhaf nad yw'r Cyngor yn clustfeinio o gwbl ar unrhyw alwadau ffôn. Mae'n wir dweud, er mwyn atal troseddau, bod gan y Cyngor bwerau i gael data ynglŷn â chyfathrebu **<u>ond nid ei gynnwys</u>** dan Bennod 2 o Ran 1 Deddf Rheoli Pwerau Ymchwiliol 2000. Mae'n rhaid i bob cais fynd trwy bwynt cyswllt y Cyngor, ac yn ystod y flwyddyn calendar 2007, defnyddiodd y Cyngor ei bwerau bedair gwaith ac adroddwyd hyn i'r Comisiynydd ar 30ain Ionawr, 2008."

### (ii) Cwestiwn gan y Cynghorydd W Gareth Roberts

"Sut mae Gwynedd yn cymharu gyda chynghorau eraill Cymru o ran gwariant ar ysgolion?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards. Arweinydd Portffolio ysgolion**

"Diolch am y cwestiwn.

Dyfynnaf wybodaeth mae'r Cynulliad yn cyhoeddi'n flynyddol ynglŷn â gwariant ac ystadegau Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Mae'r wybodaeth ariannol isod yn seiliedig ar gyllideb y flwyddyn gyllidol 2007/2008 gyda'r ystadegau yn seiliedig ar wybodaeth Ionawr 2007.

- **Gwariant gros ysgolion** - Gwynedd yn gwario £4,912 y disgybl ar draws holl sectorau ysgolion sydd seithfed uchaf allan o'r 22 Awdurdod yng Nghymru, gyda chyfartaledd Cymru yn £4,757.
- **Cymhareb Athro Disgybl** - Gwynedd gyda chymhareb athro disgybl 16.4 ar draws holl sectorau ysgolion sydd drydydd isaf (felly trydydd orau) allan o'r 22 Awdurdod yng Nghymru, gyda chyfartaledd Cymru yn 17.6
- **Cyfartaledd Maint dosbarthiadau** - Ysgolion Cynradd Gwynedd gyda chyfartaledd maint dosbarthiadau o 21.6 disgybl y dosbarth sydd drydydd isaf yng Nghymru, gyda chyfartaledd Cymru yn 24.2. Ysgolion Uwchradd Gwynedd gyda chyfartaledd maint dosbarthiadau o 18.4 sef y lleiaf yng Nghymru, gyda chyfartaledd Cymru yn 20.4.

Dyma yw'r mesurau yr ydym yn ystyried sydd yn addas i'w cymharu o ran gwariant ar ysgolion a thra bod yna fesurau eraill sy'n cael eu defnyddio gan bobl o bryd i'w gilydd - nid ydynt yn fesurau addas i'w defnyddio ar gyfer gwneud cymariaethau ystyrlon a rhesymegol gydag awdurdodau eraill."

**(iii) Cwestiwn gan y Cynghorydd Meinir Jones**

"Sawl caniatâd cynllunio sydd wedi ei roi gydag amod 106 person lleol ac amod 106 person lleol tŷ fforddiadwy yn ystod y 4 mlynedd diwethaf. Beth yw gwerth y tir mae'r Cyngor wedi ei gyfrannu er mwyn hwyluso tai fforddiadwy**?"**

**Ateb gan y Cynghorydd R H Wyn Williams, Uwch Arweinydd Amgylchedd**

"Diolch am y cwestiwn.

Ers 1af Ebrill 2004 mae cyfanswm o 50 caniatâd cynllunio, gydag amod 106 tai fforddiadwy angen lleol arnynt, wedi eu rhyddhau gan Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd:

Bydd y rhain yn sicrhau 164 uned fforddiadwy gan gynnwys tai rhent, rhan berchnogaeth, tai i'w gwerthu am ddisgownt o bris y farchnad agored a thai fforddiadwy hunan adeiladu.

Yn ogystal mae oddeutu 120 o unedau ychwanegol ar y gweill yn ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd sydd un ai wedi derbyn

caniatâd cynllunio yn amodol ar arwyddo amod 106 tai fforddiadwy, neu sydd yn y cyfnod rhagbaratoi cyn cyflwyno cais cynllunio, gan gynnwys Trefor, Bangor, Waunfawr, Caernarfon, Morfa Nefyn ag Abersoch.

Ers 1af Ebrill 2004 mae cyfanswm o 108 caniatâd cynllunio, gydag amod 106 angen person lleol arnynt, wedi eu rhyddhau gan Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd.

Bydd y rhain yn sicrhau 143 o unedau gydag amod person lleol ynghlwm iddynt.

O ran cyfraniad Cyngor Gwynedd i'r maes tai fforddiadwy drwy ddefnyddio tiroedd y Cyngor ar gyfer y math yma o dai:

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhagweithiol iawn yn y maes drwy wneud defnydd o dir yn ei berchnogaeth er mwyn darparu tai fforddiadwy. Hyd yma mae'r Cyngor wedi buddsoddi £390,000 yn y Prosiect Tai Fforddiadwy drwy gyfrwng gwaredu tir am lai na gwerth y farchnad agored. Mae £260,000 eisoes wedi ei brosesu'n barod gyda'r £130,000 sy'n weddill yn ymrwymiad sydd ar fin cael ei weithredu. Bydd hyn yn fodd o alluogi darparu 20 uned tai fforddiadwy yn y Sir yng Ngarndolbenmaen, Llanfrothen, Brithdir, a Llanuwchllyn.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi llesu neu werthu tir i Gymdeithasau Tai fydd yn darparu 34 o dai fforddiadwy yn Llanuwchllyn, Rachub, Dyffryn Ardudwy, Aberdyfi a Llandderfel.

Yn ogystal â hyn mae adroddiad ger bron Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar Fawrth y 10fed yn argymell rhyddhau mwy o dir ar safle Maes y Pandy, Llanuwchllyn, a hynny ar gyfer cynllun arloesol a fydd yn arwain at gyfle i saith o bersonau lleol gael cyfle i hunan adeiladau tai ar dir fydd yn cael ei werthu iddynt gan y Cyngor. Bydd cyfres o fesurau sydd heb ddefnyddio o'r blaen gan y Cyngor, yn sicrhau fod y tai yma yn fforddiadwy ac ar gael i rai lleol sydd mewn gwir angen. Mae hwn yn gynllun sydd wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda grŵp lleol Sylfeini ac yn gam llwyddiannus arall i'r cyfeiriad cywir."

**(ii) Cwestiwn gan y Cynghorydd Huw Edwards**

"A fyddai'r Uwch-Ddeilydd Portffolio Gofal yn fodlon adrodd ar y prosiect Cartrefi Henoed?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wyn Williams Uwch Arweinydd Gofal**

"Diolch am y cwestiwn.

Nod y Prosiect Adeiladu i'r Dyfodol yw datblygu dewisiadau gofal preswyl i bobl hŷn yng Ngwynedd sydd yn hyrwyddo annibyniaeth

defnyddwyr gwasanaeth ac yn galluogi pobl i fyw bywyd annibynnol llawn lle mae hynny'n bosib, ac yn ôl eu dymuniad.

Mae Gwedd 1 o'r Prosiect yn canolbwyntio ar bedair ardal, sef: Y Bala, Bangor, Ffestiniog a Phorthmadog.

Mae'r cynnydd ers Ionawr 2007 fel a ganlyn:-

- Cynhaliwyd Asesiad Angen trylwyr o anghenion gofal, iechyd a thai pobl hŷn o fewn dalgylch 10 milltir i'r Bala, Ffestiniog a Phorthmadog a 5 milltir o Fangor; Dadansoddwyd y wybodaeth ag adnabod bylchau o ran anghenion preswyl pobl hŷn;

- Sefydlwyd Fforymau Ardal[1], un i bob ardal, fel dolen gyswllt a'r cymunedau lleol ac i gadarnhau'r angen preswyl;

> **Y Briff** :
> Tai Gofal Ychwanegol 30 unedau ar gyfer Y Bala;
> Tai Gofal Ychwanegol 40 unedau ar gyfer Bangor;
> Canolfan ddydd ag estyniad 10 gwely gofal preswyl dementia i Gartref Plas Hedd, Bangor;
> Estyniad 10 gwely aml-bwrpas [a fyddai'n addas ar gyfer gofal dementia, lliniarol, canolraddol, preswyl, nyrsio] i Gartref Bryn Blodau, Ffestiniog;
> Tai Gofal Ychwanegol 40 unedau ar gyfer Ffestiniog;
> Tai Gofal Ychwnaegol 40 unedau ar gyfer Porthmadog

- Adnabuwyd safleoedd addas ar gyfer y ddarpariaeth gofal preswyl newydd yn y pedair ardal;

- Cyflwynwyd ceisiadau cynllunio amlinellol i'r Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer Y Bala a Ffestiniog a Phwyllgor Cynllunio Ardal Arfon ar gyfer Bangor;

- Paratowyd a chyflwynwyd ceisiadau cyfalaf i Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer Grant Tai Cymdeithasol, swm o £3.851m ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol Y Bala a £5.076m ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol Ffestiniog. Rhain yn 58% o werth y datblygiad. Pe bai'r ceisiadau yn cael eu cytuno, yna 42% o'r gwariant yn dod gan y Cymdeithasau Tai;

- Cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod modd i ariannu'r datblygiadau yma wedi eu cytuno a bod yr adnoddau ar gael ar gyfer adeiladu'r estyniadau yn Ffestiniog a Bangor a chanolfan ddydd ym Mangor;

- Trafodaethau gyda Chymdeithasau Tai Eryri, Tai Clwyd a Thai Gogledd Cymru ynglŷn ag ariannu datblygiadau tu allan i Grant Tai Cymdeithasol;

---

[1] Aelodaeth yn cynnwys Aelodau Etholedig, Swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth Iechyd Gogledd Orllewin Cymru, Mantell Gwynedd, Cymdeithasau Tai.

- Ymweliadau wedi eu trefnu ar gyfer staff ac Aelodau Etholedig i ddatblygiadau Tai Gofal Ychwanegol yng Nghymru a Lloegr [Awdurdod Beacon];

- Fforymau Ardal leol wedi cynnal cyfarfodydd agored gan estyn gwahoddiad i gynrychiolaeth o Gynghorau Tref a Chymuned, darparwyr mewnol ac annibynnol a'r sector wirfoddol. Dros 140 wedi mynychu'r pedwar cyfarfod ble cafwyd taith rithiol drwy ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol, cyflwyniad ar y Prosiect a phersbectif Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Chymdeithasau Tai ar y datblygiadau arfaethedig a hefyd cyflwyniad ar bapur trafod drafft ar ddarparu gwasanaethau cymunedol i bobl hŷn. Cyfle fel rhan o'r cyfarfodydd i ofyn cwestiynau i'r Panel siaradwyr;

Ymhellach, nodir bod y Cyngor yn :-

- Aros cadarnhad gan Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn â'r ceisiadau am Grant Tai Cymdeithasol;
- Trafod gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â materion cynllunio;
- Parhau i drafod gyda Chymdeithasau Tai 2"

**7 MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR**

**<u>BWRDD Y CYNGOR – 19 CHWEFROR, 2008</u>**

**(A) <u>Eitem 5 – Strategaeth Ariannol - Cyllideb a Blaenoriaethau'r Cyngor 2008/09 ac Eitem 10 Cyfundrefn Arbedion 2008/09</u>**

Cyflwynwyd:-

(i) Adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau ar strategaeth ariannol 2008/2009;
(ii) Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad ar ganlyniad y broses o ddadansoddi a blaenoriaethu bidiau refeniw a chyfalaf fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2008/09;
(iii) Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad yn adolygu cynnydd yn erbyn y targed arbedion ariannol;
(iv) Dyfyniad o gofnodion y cyfarfod o Fwrdd y Cyngor ar 19 Chwefror, 2009 ynglŷn â'r Strategaeth Gyllidol oedd yn cynnwys argymell cynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.8% ar gyfer 2008/09;
(v) Penderfyniad drafft ar gyfer gosod y Dreth Gyngor ar gyfer 2008/2009; datganiad o'r cynnydd yn y Dreth Gyngor Band D fesul cymuned.

Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2008, wedi argymell fel a ganlyn mewn perthynas â chyllideb 2008/2009:-

***"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-***

***(i) y dylid derbyn y gyllideb a amlinellwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr (gan gynnwys ariannu'r bidiau unwaith ac am byth yn y dull a nodwyd) ond gan dderbyn ychydig mwy o risg a gostwng y gyllideb wrth gefn i £800,000, er mwyn cadw lefel y toriadau neu arbedion angenrheidiol i £3.514m, a chyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Cyngor i 3.8%;***

***(ii) osod £1m o'r swm o oddeutu £1.5m y bydd y Cyngor yn ei etifeddu yn sgil mewnoli Cwmni Gwastraff Môn Arfon mewn cronfa, er mwyn medru cwrdd â'r anghenion buddsoddi sy'n debygol o godi yn y maes gwastraff yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r £0.5m arall at ddibenion unwaith ac am byth yng nghyllideb 2008/09.***

Hefyd mewn perthynas â'r bidiau refeniw a chyfalaf:-

***"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo argymhellion y Pennaeth Polisi a Pherfformiad o ran y symiau a'r argymhellion gweithredu cysylltiedig"***

ac mewn perthynas â'r arbedion

***"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn dderbyn y sefyllfa ddiweddaraf parthed arbedion 2008/09"***

Cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Strategaethol Adnoddau yn ymhelaethu ar ei adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol a Bwrdd y Cyngor.

Amlinellwyd y prif faterion oedd yng nghyllideb 2008/09, gan gyfeirio at y sefyllfa gyfalaf er mwyn gosod cyd-destun i elfennau fyddai'n cael ardrawiad ar y gyllideb refeniw; manylion y setliad terfynol ac incwm y Cyngor; y gofynion o ran gwariant a'r swm oedd ei angen er mwyn cwrdd â bidiau anorfod parhaol ar gyfer 2008/09; ragolygon tair blynedd 2008/09 - 2010/11 gan fodelu patrymau gwariant ar gyfer y tair blynedd i ddod yn seiliedig ar wahanol dybiaethau ynglŷn â chwyddiant, pwysau ar wasanaethau ayb; y bidiau anorfod unwaith ac am byth a adnabuwyd; y defnydd o falansau'r Cyngor; ystyriaethau ac opsiynau parthed y ffordd ymlaen ynghyd â sylwadau ag argymhellion y pwyllgor craffu a'r Bwrdd.

Eglurwyd bod Gwynedd wedi derbyn cynnydd o 2% yn y grant o gymharu â chynnydd o 2.4% ar gyfartaledd ar draws Cymru, a bod Gwynedd ynghyd ag 8 awdurdod arall wedi derbyn y cynnydd grant isaf drwy Gymru ar gyfer 2008/09. Roedd y cynnydd isel yn parhau i Wynedd yn 2009/10 (1.8%) o gymharu â chyfartaledd ar gyfer Cymru o 2.5% ac yn 2010/11 (2.8%) o gymharu â'r cyfartaledd ar draws Cymru (3.2%).

Ymhellach, roedd Gwynedd wedi derbyn y setliad isaf ond un drwy Gymru gyfan yn ystod y chwe blynedd rhwng 2005/06 a 2010/11, a bod hyn gyfwerth a 20.59% o gymharu â chyfartaledd Cymru o 25.49%.

Pwysleisiwyd bod hyn yn golygu y byddai Gwynedd wedi derbyn £6.6m yn llai o grant na'r cynnydd cyfartalog cenedlaethol dros y cyfnod yma.

Roedd cynnydd isel yn y grant oherwydd y fformiwla dyrannu adnoddau i lywodraeth leol a thra mai newidiadau demograffig oedd yn rhannol gyfrifol, elfen bwysig arall oedd y ffaith nad oedd y fformiwla'n cydnabod yn llawn y gost uwch o ddarparu gwasanaethau mewn ardal wledig. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn parhau i frwydo i geisio newid y sefyllfa.

Pwysleisiwyd bod bwlch ariannol o dros £5.5m wedi ei adnabod yn y gyllideb ar gyfer 2008/09, ac ystyriwyd y prif ddewisiadau ar gyfer cau'r bwlch ariannol sef gweithredu toriadau o fewn y gyllideb, lleihau'r gwariant a chynyddu'r Dreth Gyngor.

Nodwyd y byddai cynnydd uwch ben 5% yn herio'r Cynulliad.

Eglurwyd y byddai Treth Cyngor rhwng 3% a 5% yn golygu y byddai'n rhaid lleihau gwariant o rhwng £3.5m a £4.3

Byddai defnyddio'r oll o'r £4m o arbedion yr oedd gwasanaethau yn ceisio eu darganfod yn golygu Treth Gyngor o 3.8%, a byddai cynnydd llai'n golygu arbedion uwch na'r £4m a gynlluniwyd ar ei gyfer. Pwysleisiwyd y byddai defnyddio'r oll o'r £4m yn golygu penderfyniadau anos i'r dyfodol, a byddai defnyddio llai o arbedion yn golygu y byddai angen cynyddu'r dreth uwchben 4%.

Eglurwyd bod y gyllideb ar hyn o bryd yn cynnwys cyllideb wrth gefn o £1.37m, a rhoddwyd ystyriaeth i ostwng lefel y gyllideb wrth gefn. Er y byddai gostwng lefel y gyllideb yma'n cynyddu'r risg i'r Cyngor, eglurwyd y byddai'n galluogi gosod y Dreth Cyngor ar 3.8% a defnyddio llai o'r arbedion eleni er mwyn cynyddu'r hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol. Roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn bod modd gostwng lefel y gyllideb wrth gefn o £1.3m i £800,000.

Roedd Bwrdd y Cyngor wedi argymell cynnydd o 3.8% yn y Dreth Gyngor a gostwng y gyllideb wrth gefn er mwyn cadw lefel y toriadau angenrheidiol i £3.514m. Hefyd roedd y pwyllgor craffu a'r Bwrdd yn argymell gosod £1m o'r swm o oddeutu £1.5m y bydd y Cyngor yn ei etifeddu yn sgil mewnoli Cwmni Gwastraff Môn Arfon mewn reserf er mwyn medru cwrdd â'r anghenion buddsoddi sy'n debygol o godi yn y maes gwastraff yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r £0.5m arall at ddibenion unwaith ac am byth yng nghyllideb 2008/09.

Nodwyd mai yn sgil effaith mabwysiadu strategaeth o'r fath fyddai lleihau'r toriadau oedd yn disgyn ar ysgolion o tua £100,000.

Nodwyd bod amrediad y cynnydd mewn cynghorau eraill yn debygol o fod rhwng 3% a 5%.

Ystyriwyd ar y cyd y tri adroddiad oedd yn berthnasol i'r Strategaeth ariannol sef adroddiad ar y gyllideb a'r dreth cyngor ar gyfer 2008/09; ar y broses blaenoriaethu adnoddau bidiau refeniw a chyfalaf 2008/09 - 2010/11 a'r gyfundrefn arbedion 2008/09.

Rhoddwyd cyfle i aelodau drafod a holi cwestiynau ynglŷn â'r strategaeth.

Nodwyd barn rhai aelodau bod graddfa chwyddiant y Llywodraeth o 2% yn gwbl afreal oedd yn golygu bod y setliad yn salach fyth mewn gwirionedd.

Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr am ei grynhoad huawdl, a diolchwyd hefyd i swyddogion y Cyngor am eu gwaith clodwiw mewn cyfnod anodd

**PENDERFYNWYD**

1. Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol a'r Gyllideb Refeniw ar gyfer y flwyddyn 2008/2009 fel y argymhellwyd gan Fwrdd y Cyngor ar 19 Chwefror 2008 yn cynnwys yr argymhellion ynglŷn â'r bidiau a'r arbedion

2. Y dylid nodi i Fwrdd y Cyngor , yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2007 gyfrifo'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2008/2009 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf") :-

(a) 48,379.37 yw'r swm a gyfrifwyd gan y Bwrdd , yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Gyngor am y flwyddyn.

(b) Rhan o ardal y Cyngor - Cymuned -

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 503.18 | Llanegryn | 146.67 |
| Aberdyfi | 902.53 | Llanelltyd | 287.09 |
| Abergwyngregyn | 108.34 | Llanengan | 1,871.78 |
| Abermaw | 1,041.05 | Llanfair | 304.99 |
| Arthog | 592.90 | Llanfihangel y Pennant | 203.85 |
| Bala | 714.54 | Llanfrothen | 204.78 |
| Bangor | 3,744.34 | Llangelynnin | 375.04 |
| Beddgelert | 310.00 | Llangywair | 121.63 |
| Bethesda | 1,560.10 | Llanllechid | 319.14 |
| Betws Garmon | 125.18 | Llanllyfni | 1,280.98 |
| Bontnewydd | 433.10 | Llannor | 872.28 |
| Botwnnog | 413.51 | Llanrug | 1,072.55 |
| Brithdir a Llanfachreth | 395.10 | Llanuwchllyn | 293.60 |
| Bryncrug | 314.22 | Llanwnda | 738.03 |
| Buan | 222.62 | Llanycil | 188.27 |
| Caernarfon | 3,303.03 | Llanystumdwy | 847.62 |
| Clynnog Fawr | 425.09 | Maentwrog | 265.98 |
| Corris | 285.62 | Mawddwy | 326.53 |
| Criccieth | 880.51 | Nefyn | 1,338.87 |
| Dolbenmaen | 575.09 | Pennal | 201.29 |
| Dolgellau | 1,134.82 | Penrhyndeudraeth | 736.68 |
| Dyffryn Ardudwy | 771.92 | Pentir | 949.81 |
| Ffestiniog | 1,621.34 | Pistyll | 228.20 |
| Harlech | 701.08 | Porthmadog | 1,946.95 |
| Llanaelhaearn | 413.72 | Pwllheli | 1,638.25 |
| Llanbedr | 285.04 | Talsarnau | 297.65 |
| Llanbedrog | 660.04 | Trawsfynydd | 494.57 |
| Llanberis | 728.56 | Tudweiliog | 419.03 |
| Llanddeiniolen | 1,749.42 | Tywyn | 1,484.19 |
| Llandderfel | 476.44 | Waunfawr | 526.19 |
| Llandwrog | 969.37 | Y Felinheli | 1,021.59 |
| Llandygai | 932.24 | Y Ganllwyd | 81.25 |

sef y symiau a gyfrifwyd gan y Bwrdd, fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2008/2009 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf.

(a) £335,034,190 — Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf.

| | |
|---|---|
| (b) £127,578,280 | Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf |
| (c) £207,455,910 | Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32 (4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn. |
| (ch)£163,148,420 | Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir. |
| (d) £915.83 | Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3 (ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33 (1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn. |
| (dd) £1,265,330 | Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34 (1) o'r Ddeddf. |
| (e) £889.68 | Sef y swm yn 3 (d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3 (dd) uchod â'r swm yn 2 (a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol. |

(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor -

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 901.60 | Llanegryn | 923.77 |
| Aberdyfi | 911.10 | Llanelltyd | 910.58 |
| Abergwyngregyn | 898.45 | Llanengan | 902.87 |
| Abermaw | 913.69 | Llanfair | 901.16 |
| Arthog | 904.02 | Llanfihangel y Pennant | 907.00 |
| Bala | 911.37 | Llanfrothen | 904.82 |
| Bangor | 951.95 | Llangelynnin | 905.68 |
| Beddgelert | 905.49 | Llangywair | 902.83 |
| Bethesda | 919.36 | Llanllechid | 898.30 |
| Betws Garmon | 895.27 | Llanllyfni | 916.18 |
| Bontnewydd | 912.77 | Llannor | 902.29 |
| Botwnnog | 899.35 | Llanrug | 905.53 |
| Brithdir a Llanfachreth | 907.40 | Llanuwchllyn | 905.01 |
| Bryncrug | 905.85 | Llanwnda | 905.53 |
| Buan | 906.52 | Llanycil | 902.43 |
| Caernarfon | 946.34 | Llanystumdwy | 902.07 |
| Clynnog Fawr | 901.44 | Maentwrog | 902.09 |
| Corris | 910.34 | Mawddwy | 900.40 |
| Criccieth | 920.91 | Nefyn | 908.49 |
| Dolbenmaen | 907.07 | Pennal | 902.60 |
| Dolgellau | 924.93 | Penrhyndeudraeth | 930.40 |
| Dyffryn Ardudwy | 910.41 | Pentir | 905.74 |
| Ffestiniog | 926.69 | Pistyll | 909.40 |
| Harlech | 906.80 | Porthmadog | 912.45 |
| Llanaelhaearn | 906.60 | Pwllheli | 923.86 |
| Llanbedr | 910.73 | Talsarnau | 916.56 |
| Llanbedrog | 906.35 | Trawsfynydd | 912.43 |
| Llanberis | 908.90 | Tudweiliog | 901.61 |
| Llanddeiniolen | 895.40 | Tywyn | 913.26 |
| Llandderfel | 899.44 | Waunfawr | 900.82 |
| Llandwrog | 912.89 | Y Felinheli | 909.26 |
| Llandygai | 907.87 | Y Ganllwyd | 920.45 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3 (e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34 (3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn **Atodiad 1,** sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3 (f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y

cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.

4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2008/2009 fod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 124.12 | 144.81 | 165.49 | 186.18 | 227.55 | 268.93 | 310.30 | 372.36 | 434.42 |

5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3 (ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30 (2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn **Atodiad 2** ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2008/2009 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.

**(B)** **Eitem 6 – Dangosyddion Darbodus**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid.

"**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r dangosyddion darbodus arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd dilynol fel y'u cyflwynir ym mharagraffau 2.1 - 2.10 o adroddiad y Pennaeth Cyllid."**

**(C)** **Eitem 7 – Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2008/09**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau.

**"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2008/09, a'r Atodiadau perthnasol, sy'n cynnwys newidiadau i'r "gwrthbartion cymeradwy" am fuddsoddiadau tymor byr"**

**8 LWFANSAU AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ynglŷn â lwfansau aelodau ar gyfer 2008/09

Adroddwyd bod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol wedi argymell rhewi lwfansau sylfaenol, lwfansau cyfrifoldeb arbennig a thalu lwfans cyfrifoldeb arbennig a arferid ei dalu i gadeirydd y Pwyllgor Cyflogaeth (mae bellach wedi ei ddiddymu), i Gadeirydd y Pwyllgor Cwynion am 2008/09.

Byddai rhewi'r holl lwfansau aelodau (h.y. lwfans sylfaenol a lwfans cyfrifoldeb arbennig) gyfystyr ag arbediad o £29,950.

Roedd Grŵp Busnes y Cyngor yn gefnogol i'r egwyddor o rewi'r lwfansau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Craffu ac Adnoddau a Chorfforaethol a'r gweithredu canlynol:-**
**(i) newid paragraff 3(b), 4 a 5 o'r Cynllun Lwfansau Aelodau i rewi'r lwfans sylfaenol a lwfans cyfrifoldebau arbennig ar gyfer 2008/09**
**(ii) newid paragraff 4 o'r Cynllun Lwfansau i dalu Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig i Gadeirydd y Pwyllgor Cwynion yn lle Cadeirydd y Pwyllgor Cyflogaeth (sydd wedi ei ddiddymu)**

## 9 ADOLYGU'R DOSBARTHAU PLEIDLEISIO A'R MANNAU PLEIDLEISIO

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ynglŷn â chynigion terfynol ar gyfer dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio a leolir o fewn y sir.

Adroddwyd
(i) ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol rannu eu hardal i ddosbarthiadau pleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol ac i ddynodi mannau pleidleisio ar gyfer y dosbarthiadau pleidleisio hyn a'u hadolygu'n gyson. Roedd gofyn i'r Cyngor adolygu pob dosbarth pleidleisio a man pleidleisio erbyn diwedd 2007, ac o leiaf bob pedair blynedd ar ôl hynny.
(ii) y cwblhawyd adolygiad gan ystyried yr holl sylwadau, a chyflwynwyd cynigion terfynol i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol. Penderfynodd y pwyllgor argymell i'r Cyngor gytuno'r newidiadau.

Nodwyd sylw gan aelod ynglŷn â thrafferthion parcio yng Ngorsaf Bleidleisio Caplaniaeth Anglicanaidd, Ffordd y Tywysog, Bangor yn Ward Menai.

**PENDERFYNWYD cytuno i'r newidiadau terfynol ar gyfer dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio fel y manylir yn yr Atodiad i adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd.**

## 10 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR AR GYFER 2008/09

Cyflwynwyd dyddiadur cyfarfodydd y Cyngor i'w fabwysiadu gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2008/09**

## 11 CYNLLUN TAIR BLYNEDD

Cyflwynwyd drafft ymgynghorol Cynllun Tair Blynedd y Cyngor.

Adroddwyd bod y Cynllun Tair Blynedd yn rhoi cyfeiriad strategol i'r Cyngor am y tair blynedd i ddod. Mae'n disgrifio sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb i flaenoriaethau Gwynedd Yfory; amlinellu blaenoriaethau tymor canolig a strategaethau i'w gwireddu; tanysgrifio i wella perfformiad trwy osod targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf a chyfeirio adnoddau refeniw a chyfalaf y Cyngor.

Eglurwyd bod y ddogfen yn seiliedig ar bedwar amcan strategol sef Cymuned Gynaladwy; Gwella'r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd; Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Anghenus a Ffocws ar Drigolion a nodir cyfres o flaenoriaethau gweithredol o dan y pedwar amcan hynny.

Hefyd, nodir dangosyddion allweddol y bydd y Cyngor yn eu monitro'n ofalus i geisio sicrhau'r gwasanaeth gorau i drigolion y sir. Y nod yn hyn o beth yw gosod allan nifer o bethau ar draws pedwar amcan strategol a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r sir a'i phobl.

Nodwyd bod Bwrdd y Cyngor wedi cymeradwyo'r ddogfen ddrafft ac wedi ychwanegu blaenoriaeth weithredol ar yr Agenda Gwledig o dan Amcan Strategol Cymuned Gynaladwy.

Nodwyd hefyd sylw a wnaed am yr angen i gynnwys blaenoriaeth weithredol i gyfeirio at oedolion bregus o dan Amcan Strategol - Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Anghenus.

Rhoddwyd cyfle i aelodau drafod a holi cwestiynau ynglyn â'r strategaeth.

Croesawyd y Cynllun fel dogfen eithriadol bwysig i waith y Cyngor mewn blynyddoedd i ddod.

Wrth gymeradwyo'r ddogfen ar gyfer ymgynghori, nodwyd bod angen bod yn gwbl eglur ynglŷn â beth yw amcan a bwriad yr ymgynghori.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drafft o'r Cynllun Tair Blynedd a'r cynigion ar gyfer ymgynghori ar y cynnwys.**

## 12 GORCHYMYN ARDAL CYHOEDDUS DYNODEDIG YNGLŶN AG YFED ALCOHOL YN Y BALA

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Swyddog Diogelwch Cymunedol i gymeradwyo Gorchymyn Dynodedig Cyhoeddus ynglyn ag yfed alcohol yn y Bala o dan Adran 13 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Heddlu 2001.

Adroddwyd bod gan awdurdodau lleol bŵer i gyfyngu ar yfed cyhoeddus gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus dynodedig a rhoi pŵer i'r heddlu orfodi'r cyfyngiad hwn. Roedd tystiolaeth helaeth o ddigwyddiadau o drosedd ac anhrefn oherwydd alcohol yn nhref y Bala ac roedd cefnogaeth leol a chefnogaeth Pwyllgor Ardal Meirionnydd i'r Cyngor gymeradwyo ardal ddynodedig ar gyfer yfed alcohol yn y dref.

Eglurwyd bod y mater wedi ei gymeradwyo'n wreiddiol gan y Cyngor yn Hydref 2007. Fodd bynnag amlygwyd gwallau yn y modd yr hysbysebwyd y bwriad, a rhag peryglu priodoldeb y gorchymyn, penderfynwyd ail gychwyn y broses, sydd bellach wedi ei gwblhau.

**PENDERFYNWYD gwneud Gorchymyn Dynodedig Cyhoeddus dan Adran 13 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Heddlu 2001 yn yr ardaloedd o Bala a nodir yn adroddiad Uwch Swyddog Diogelwch Cymunedol**

## 13 CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21

**BWRDD Y CYNGOR – 19 CHWEFROR 2008**

**EITEM 19 -GWASANAETH DYDD ANABLEDDAU DYSGU ARFON - CANOLFAN SEGONTIUM A CHYNLLUN CYMUNEDOL ARFON .**

(A) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd dan Reol Gweithdrefn 21, wedi'i lofnodi gan y nifer priodol o aelodau, yn cyfeirio'r mater uchod i fyny i'r Cyngor.

(B) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 19 Chwefror 2008 ynghyd â chofnod o'r penderfyniad, sef:-

**"PENDERFYNWYD**

**(i) Cau adeilad Canolfan Segontium ar 30 Medi 2008.**

**(ii) Comisiynu newidiadau i'r drefn gyfredol trwy ail gomisiynu yn unol ag anghenion unigolion a'u lleoli yn y ddarpariaeth fwyaf addas sydd ar gael yn ardal Arfon unai yn y sector wirfoddol neu ddarpariaeth y Cyngor.**

**(iii) Bod rhaid sicrhau bod defnyddwyr, gofalwyr a staff y gwasanaeth yn llawn ymwybodol o'r trefniadau ar hyd y daith a bod angen cysylltu â hwy yn ddiymdroi i rannu gwybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf.**

Cynigiwyd ac eiliwyd penderfyniad y Bwrdd.

Adroddwyd:-

(a) ei bod yn wybyddus ers rhai blynyddoedd bod defnydd adeilad Canolfan Segontium yn dirwyn i ben, ac yng Ngorffennaf 2007 penderfynodd y Bwrdd y dylid sefydlu Bwrdd Prosiect i ymchwilio i opsiynau ar gyfer cyfarch anghenion dydd y defnyddwyr, gan gyflwyno argymhelliad pendant i'r Bwrdd ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Roedd aelodaeth y Bwrdd Prosiect yn gynrychioliadol o gyfranddalwyr y gwasanaeth, ac roedd yn rhoddi pwyslais ar ddatblygu gwasanaeth person canolog;

(b) y rhannwyd gwybodaeth gyda defnyddwyr a phartneriaid yn dilyn penderfyniad y Bwrdd yng Ngorffennaf 2007 a cheisiwyd sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r camau. Roedd ail gam y trafodaethau i ddechrau yn dilyn penderfyniad y Bwrdd i gau Canolfan Segontium ddiwedd Medi a chomisiynu newidiadau i'r drefn gyfredol.

Pwysleisiwyd bod y nifer o bobl ag anableddau dysgu'n cynyddu, ei fod yn arwain at adnabod anghenion comisiynu, a bod angen darganfod dull cynaladwy i ymateb i'r galw cynyddol. Hefyd eglurwyd bod cynnydd yn y nifer o bobl hŷn ag anabledd dysgu, a bod llawer ohonynt yn byw gyda'i teuluoedd sydd hefyd yn heneiddio. Bydd galw cynyddol am gefnogaeth yn y dyfodol.

Eglurwyd bod y strategaeth oedd gerbron yn cyd fynd â gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, a bod peidio newid a moderneiddio'r trefniadau'n groes i'r weledigaeth honno.

Nodwyd bod y pwyllgor craffu wedi rhoddi sylw i'r opsiynau ddechrau Chwefror 2008, ac wedi argymell cau'r Ganolfan ddiwedd Medi ac ail gomisiynu yn unol ag anghenion unigolion a'u lleoli yn y ddarpariaeth fwyaf addas sydd ar gael yn ardal Arfon - unai yn y sector wirfoddol neu ddarpariaeth y Cyngor.

Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Statudol, at y pryder ynglŷn â'r oedi sylweddol mewn gweithredu ar gynlluniau. Roedd y bwriad i gau Canolfan Segontiwm wedi ei argymell yn cynllun gwaith yr Adolygiad ar y Cyd 2002. Nodwyd yr angen I sicrhau buddsoddiad ar gyfer y dyfodol tra'n cyfarch anghenion y presenol. Adroddwyd bod y Gwasanaeth wedi dymuno cefnogaeth y Cyngor, trwy'r broses craffu, ynglŷn â'r opsiynau I'w hystyried ar sail y wybodaeth am ddarpariaeth a ddaeth i law ers sefydlu'r Bwrdd Prosiect. O dderbyn cefnogaeth byddai'r ymgynghoriad manwl yn cymryd lle gyda'r teuluoedd unigol.

Pwysleisiwyd yr angen i gynllunio ar sail anghenion yr unigolyn yn hytrach nac ar ddarpariaeth adeilad. Roedd cytundeb y byddai'n debygol y byddai rhaid buddosoddi mewn gwella darpariaeth adeladwaith o fewn i'r gymuned er mwyn cyfarch anghenion ac y byddai hyn yn sail penodol I'r Cyngor yn y dyfodol.

Adroddwyd yn ogystal bod cyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau cysondeb gwasanaeth ar draws Gwynedd ac y byddai rhaid i'r cynllun, cyn ei ddiwedd, adnabod anghenion preswylwyr gweddill y Sir.

(C) Cynigiwyd, ac eiliwyd y gwelliant canlynol, sef:-

*(i)* *Gohirio cau adeilad Canolfan Segontium a pharhau i gynnal y gwasanaeth presennol yno hyd oni bydd adeilad arall addas wedi ei ddarganfod;*
*(ii)* *Darganfod adeilad addas a throsglwyddo'r gwasanaeth presennol i'r adeilad hwnnw gan barhau gyda darpariaeth y Cyngor;*
*(iii)* *Ystyried defnyddio rhan o unrhyw arian a dderbynnir am ddatblygu hen safle Ysgol Pendalar i addasu adeilad newydd ar gyfer y gwasanaeth;*
*(iv)* *Sicrhau bod defnyddwyr, gofalwyr a staff y gwasanaeth yn llawn ymwybodol o'r trefniadau ar hyd y daith a bod angen cysylltu â hwy yn ddiymdroi i rannu gwybodaeth ynflyn â'r sefyllfa ddiweddaraf*

Eglurodd y cynigydd bod penderfyniad diweddar y Bwrdd i gau Canolfan Segontium ddiwedd Medi 2008 wedi achosi gofid mawr i lawer o bobl. Llesiodd farn gref na fu ymgynghori teilwng a llawn gyda defnyddwyr, rhieni a gofalwyr. Nododd bod y gwasanaeth presennol yn cael ei ddarparu gan staff profiadol a chymwys i gyflwyno gwasanaeth i oedolion bregus. Pwysodd yn gryf am gefnogaeth i barhau â'r ddarpariaeth gyfredol mewn adeilad addas.

Ategwyd canmoliaeth fawr i'r gwasanaeth ardderchog a ddarperir yng Nghanolfan Segontium a phwysleisiwyd bod angen sicrhau safon y gwasanaeth i'r dyfodol. Cyfeiriwyd at y ffaith fod y defnyddwyr yn un teulu mawr a mynegwyd gofid y byddai eu gwahanu'n andwyol iddynt.

Cyfeiriwyd at waith clodwiw mentrau cymunedol fel Antur Waunfawr a Menter Fachwen. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod rhai o ddefnyddwyr Canolfan Segontium yn eithriadol fregus gydag anghenion dwys ac na fyddai'r mentrau hyn yn addas ar eu cyfer.

Pleidleisiwyd a phasiwyd y gwelliant a nodir yn (C)(i)-(iii) uchod, a datganodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi cymryd lle'r cynnig gwreiddiol.

(CH) Cynigiwyd ac eiliwyd y gwelliant pellach canlynol:-

*(i)* *Gohirio cau adeilad Canolfan Segontium, a pharhau i gynnal y gwasanaeth presennol yno, hyd oni fydd darpariaeth addas arall wedi ei ddarganfod ar gyfer y defnyddwyr;*
*(ii)* *Darganfod darpariaeth addas yn unol ag anghenion unigolion a throsglwyddo'r gwasanaeth presennol i'r ddarpariaeth honno ;*
*(ii)* *Sicrhau bod defnyddwyr, gofalwyr a staff y gwasanaeth yn llawn ymwybodol o'r trefniadau ar hyd y daith a bod angen cysylltu â hwy yn ddiymdroi i rannu gwybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf.*

Pwysleisiwyd bod gwasanaeth anabledd dysgu wedi datblygu llawer dros y blynyddoedd, a bod angen moderneiddio'r gwasanaeth a sicrhau darpariaeth sy'n ateb anghenion personol unigolion. Pwysleisiwyd nad oedd un adeilad yn ateb gofynion holl ddefnyddiwr y gwasanaeth.

Adroddodd y Prif Weithredwr ei fod wedi derbyn adroddiad drafft yr Adolygiad ar y Cyd. Mae trafodaethau'n parhau cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol, ond mae amharodrwydd y Cyngor i wneud penderfyniadau anodd yn derbyn sylw yn yr Adolygiad. Atgoffwyd yr aelodau bod gan y Prif Arolygydd bwerau i ymyrryd, a mynegodd bryder y byddai peidio moderneiddio darpariaeth anabledd dysgu'n cynyddu'r risg o ymyrraeth.

Pleidleisiwyd a phasiwyd y gwelliant a nodir yn (c)(i)-(iii) uchod, a datganodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi cymryd lle'r cynnig (gwelliant) blaenorol.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Gohirio cau adeilad Canolfan Segontium, a pharhau i gynnal y gwasanaeth presennol yno, hyd oni fydd darpariaeth addas arall wedi ei ddarganfod ar gyfer y defnyddwyr;**
**(ii) Darganfod darpariaeth addas yn unol ag anghenion unigolion a throsglwyddo'r gwasanaeth presennol i'r ddarpariaeth honno ;**
**(ii) Sicrhau bod defnyddwyr, gofalwyr a staff y gwasanaeth yn llawn ymwybodol o'r trefniadau ar hyd y daith a bod angen cysylltu â hwy yn ddiymdroi i rannu gwybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf.**

**14 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Dafydd Iwan o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**Rydym fel Cyngor yn falch iawn o'r arweiniad yr ydym wedi ei roi fel y Cyngor Sir cyntaf i ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel prif iaith ein gweinyddu mewnol, tra'n cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd.**

**Datganwn yn awr ein bod am adeiladu ar y sylfaen hwn, ac am sicrhau yn ystod 2008 y byddwn yn cryfhau unrhyw wendidau yn y polisi iaith hwn, ac yn cyhoeddi Siarter Iaith ar y cyd gyda'n partneriaid i ehangu defnydd yr iaith ymhob agwedd ar fywyd y sir.**

**Datganwn ymhellach y byddwn yn sicrhau fod holl ysgolion y sir yn ysgolion Cymreig eu hethos, lle bydd y Gymraeg yn brif gyfrwng dysgu, a'r Saesneg ac ieithoedd eraill yn cael eu dysgu'n drwyadl fel ail ieithoedd, ac y bydd plant a phobl ifanc Gwynedd yn dysgu hanes a daearyddiaeth eu bro, eu sir a Chymru fel sylfaen i'w hastudiaethau.**

**Galwn drwy hyn ar awdurdodau lleol eraill i ddilyn ein hesiampl a gwneud y Gymraeg yn brif gyfrwng eu gweinyddiad mewnol.**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu i weithredu ar y cynnig**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 p.m. a daeth i ben am 5.20 p.m.

**ATODIAD 1/ APPENDIX 1**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 601.07 | 701.24 | 801.42 | 901.60 | 1101.96 | 1302.31 | 1502.67 | 1803.20 | 2103.73 |
| Aberdyfi | 607.40 | 708.63 | 809.87 | 911.10 | 1113.57 | 1316.03 | 1518.50 | 1822.20 | 2125.90 |
| Abergwyngregyn | 598.97 | 698.79 | 798.62 | 898.45 | 1098.11 | 1297.76 | 1497.42 | 1796.90 | 2096.38 |
| Abermaw | 609.13 | 710.65 | 812.17 | 913.69 | 1116.73 | 1319.77 | 1522.82 | 1827.38 | 2131.94 |
| Arthog | 602.68 | 703.13 | 803.57 | 904.02 | 1104.91 | 1305.81 | 1506.70 | 1808.04 | 2109.38 |
| Bala | 607.58 | 708.84 | 810.11 | 911.37 | 1113.90 | 1316.42 | 1518.95 | 1822.74 | 2126.53 |
| Bangor | 634.63 | 740.41 | 846.18 | 951.95 | 1163.49 | 1375.04 | 1586.58 | 1903.90 | 2221.22 |
| Beddgelert | 603.66 | 704.27 | 804.88 | 905.49 | 1106.71 | 1307.93 | 1509.15 | 1810.98 | 2112.81 |
| Bethesda | 612.91 | 715.06 | 817.21 | 919.36 | 1123.66 | 1327.96 | 1532.27 | 1838.72 | 2145.17 |
| Betws Garmon | 596.85 | 696.32 | 795.80 | 895.27 | 1094.22 | 1293.17 | 1492.12 | 1790.54 | 2088.96 |
| Bontnewydd | 608.51 | 709.93 | 811.35 | 912.77 | 1115.61 | 1318.45 | 1521.28 | 1825.54 | 2129.80 |
| Botwnnog | 599.57 | 699.49 | 799.42 | 899.35 | 1099.21 | 1299.06 | 1498.92 | 1798.70 | 2098.48 |
| Brithdir a Llanfachreth | 604.93 | 705.76 | 806.58 | 907.40 | 1109.04 | 1310.69 | 1512.33 | 1814.80 | 2117.27 |
| Bryncrug | 603.90 | 704.55 | 805.20 | 905.85 | 1107.15 | 1308.45 | 1509.75 | 1811.70 | 2113.65 |
| Buan | 604.35 | 705.07 | 805.80 | 906.52 | 1107.97 | 1309.42 | 1510.87 | 1813.04 | 2115.21 |
| Caernarfon | 630.89 | 736.04 | 841.19 | 946.34 | 1156.64 | 1366.94 | 1577.23 | 1892.68 | 2208.13 |
| Clynnog Fawr | 600.96 | 701.12 | 801.28 | 901.44 | 1101.76 | 1302.08 | 1502.40 | 1802.88 | 2103.36 |
| Corris | 606.89 | 708.04 | 809.19 | 910.34 | 1112.64 | 1314.94 | 1517.23 | 1820.68 | 2124.13 |
| Criccieth | 613.94 | 716.26 | 818.59 | 920.91 | 1125.56 | 1330.20 | 1534.85 | 1841.82 | 2148.79 |
| Dolbenmaen | 604.71 | 705.50 | 806.28 | 907.07 | 1108.64 | 1310.21 | 1511.78 | 1814.14 | 2116.50 |
| Dolgellau | 616.62 | 719.39 | 822.16 | 924.93 | 1130.47 | 1336.01 | 1541.55 | 1849.86 | 2158.17 |
| Dyffryn Ardudwy | 606.94 | 708.10 | 809.25 | 910.41 | 1112.72 | 1315.04 | 1517.35 | 1820.82 | 2124.29 |
| Ffestiniog | 617.79 | 720.76 | 823.72 | 926.69 | 1132.62 | 1338.55 | 1544.48 | 1853.38 | 2162.28 |
| Harlech | 604.53 | 705.29 | 806.04 | 906.80 | 1108.31 | 1309.82 | 1511.33 | 1813.60 | 2115.87 |
| Llanaelhaearn | 604.40 | 705.13 | 805.87 | 906.60 | 1108.07 | 1309.53 | 1511.00 | 1813.20 | 2115.40 |
| Llanbedr | 607.15 | 708.35 | 809.54 | 910.73 | 1113.11 | 1315.50 | 1517.88 | 1821.46 | 2125.04 |
| Llanbedrog | 604.23 | 704.94 | 805.64 | 906.35 | 1107.76 | 1309.17 | 1510.58 | 1812.70 | 2114.82 |
| Llanberis | 605.93 | 706.92 | 807.91 | 908.90 | 1110.88 | 1312.86 | 1514.83 | 1817.80 | 2120.77 |
| Llanddeiniolen | 596.93 | 696.42 | 795.91 | 895.40 | 1094.38 | 1293.36 | 1492.33 | 1790.80 | 2089.27 |
| Llandderfel | 599.63 | 699.56 | 799.50 | 899.44 | 1099.32 | 1299.19 | 1499.07 | 1798.88 | 2098.69 |
| Llandwrog | 608.59 | 710.03 | 811.46 | 912.89 | 1115.75 | 1318.62 | 1521.48 | 1825.78 | 2130.08 |
| Llandygai | 605.25 | 706.12 | 807.00 | 907.87 | 1109.62 | 1311.37 | 1513.12 | 1815.74 | 2118.36 |
| Llanegryn | 615.85 | 718.49 | 821.13 | 923.77 | 1129.05 | 1334.33 | 1539.62 | 1847.54 | 2155.46 |
| Llanelltyd | 607.05 | 708.23 | 809.40 | 910.58 | 1112.93 | 1315.28 | 1517.63 | 1821.16 | 2124.69 |
| Llanengan | 601.91 | 702.23 | 802.55 | 902.87 | 1103.51 | 1304.15 | 1504.78 | 1805.74 | 2106.70 |
| Llanfair | 600.77 | 700.90 | 801.03 | 901.16 | 1101.42 | 1301.68 | 1501.93 | 1802.32 | 2102.71 |
| Llanfihangel y Pennant | 604.67 | 705.44 | 806.22 | 907.00 | 1108.56 | 1310.11 | 1511.67 | 1814.00 | 2116.33 |
| Llanfrothen | 603.21 | 703.75 | 804.28 | 904.82 | 1105.89 | 1306.96 | 1508.03 | 1809.64 | 2111.25 |
| Llangelynnin | 603.79 | 704.42 | 805.05 | 905.68 | 1106.94 | 1308.20 | 1509.47 | 1811.36 | 2113.25 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llangywair | 601.89 | 702.20 | 802.52 | 902.83 | 1103.46 | 1304.09 | 1504.72 | 1805.66 | 2106.60 |
| Llanllechid | 598.87 | 698.68 | 798.49 | 898.30 | 1097.92 | 1297.54 | 1497.17 | 1796.60 | 2096.03 |
| Llanllyfni | 610.79 | 712.58 | 814.38 | 916.18 | 1119.78 | 1323.37 | 1526.97 | 1832.36 | 2137.75 |
| Llannor | 601.53 | 701.78 | 802.04 | 902.29 | 1102.80 | 1303.31 | 1503.82 | 1804.58 | 2105.34 |
| Llanrug | 603.69 | 704.30 | 804.92 | 905.53 | 1106.76 | 1307.99 | 1509.22 | 1811.06 | 2112.90 |
| Llanuwchllyn | 603.34 | 703.90 | 804.45 | 905.01 | 1106.12 | 1307.24 | 1508.35 | 1810.02 | 2111.69 |
| Llanwnda | 603.69 | 704.30 | 804.92 | 905.53 | 1106.76 | 1307.99 | 1509.22 | 1811.06 | 2112.90 |
| Llanycil | 601.62 | 701.89 | 802.16 | 902.43 | 1102.97 | 1303.51 | 1504.05 | 1804.86 | 2105.67 |
| Llanystumdwy | 601.38 | 701.61 | 801.84 | 902.07 | 1102.53 | 1302.99 | 1503.45 | 1804.14 | 2104.83 |
| Maentwrog | 601.39 | 701.63 | 801.86 | 902.09 | 1102.55 | 1303.02 | 1503.48 | 1804.18 | 2104.88 |
| Mawddwy | 600.27 | 700.31 | 800.36 | 900.40 | 1100.49 | 1300.58 | 1500.67 | 1800.80 | 2100.93 |
| Nefyn | 605.66 | 706.60 | 807.55 | 908.49 | 1110.38 | 1312.26 | 1514.15 | 1816.98 | 2119.81 |
| Pennal | 601.73 | 702.02 | 802.31 | 902.60 | 1103.18 | 1303.76 | 1504.33 | 1805.20 | 2106.07 |
| Penrhyndeudraeth | 620.27 | 723.64 | 827.02 | 930.40 | 1137.16 | 1343.91 | 1550.67 | 1860.80 | 2170.93 |
| Pentir | 603.83 | 704.46 | 805.10 | 905.74 | 1107.02 | 1308.29 | 1509.57 | 1811.48 | 2113.39 |
| Pistyll | 606.27 | 707.31 | 808.36 | 909.40 | 1111.49 | 1313.58 | 1515.67 | 1818.80 | 2121.93 |
| Porthmadog | 608.30 | 709.68 | 811.07 | 912.45 | 1115.22 | 1317.98 | 1520.75 | 1824.90 | 2129.05 |
| Pwllheli | 615.91 | 718.56 | 821.21 | 923.86 | 1129.16 | 1334.46 | 1539.77 | 1847.72 | 2155.67 |
| Talsarnau | 611.04 | 712.88 | 814.72 | 916.56 | 1120.24 | 1323.92 | 1527.60 | 1833.12 | 2138.64 |
| Trawsfynydd | 608.29 | 709.67 | 811.05 | 912.43 | 1115.19 | 1317.95 | 1520.72 | 1824.86 | 2129.00 |
| Tudweiliog | 601.07 | 701.25 | 801.43 | 901.61 | 1101.97 | 1302.33 | 1502.68 | 1803.22 | 2103.76 |
| Tywyn | 608.84 | 710.31 | 811.79 | 913.26 | 1116.21 | 1319.15 | 1522.10 | 1826.52 | 2130.94 |
| Waunfawr | 600.55 | 700.64 | 800.73 | 900.82 | 1101.00 | 1301.18 | 1501.37 | 1801.64 | 2101.91 |
| Y Felinheli | 606.17 | 707.20 | 808.23 | 909.26 | 1111.32 | 1313.38 | 1515.43 | 1818.52 | 2121.61 |
| Y Ganllwyd | 613.63 | 715.91 | 818.18 | 920.45 | 1124.99 | 1329.54 | 1534.08 | 1840.90 | 2147.72 |

**ATODIAD 2 / APPENDIX 2**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 725.19 | 846.05 | 966.91 | 1087.78 | 1329.51 | 1571.24 | 1812.97 | 2175.56 | 2538.15 |
| Aberdyfi | 731.52 | 853.44 | 975.36 | 1097.28 | 1341.12 | 1584.96 | 1828.80 | 2194.56 | 2560.32 |
| Abergwyngregyn | 723.09 | 843.60 | 964.11 | 1084.63 | 1325.66 | 1566.69 | 1807.72 | 2169.26 | 2530.80 |
| Abermaw | 733.25 | 855.46 | 977.66 | 1099.87 | 1344.28 | 1588.70 | 1833.12 | 2199.74 | 2566.36 |
| Arthog | 726.80 | 847.94 | 969.06 | 1090.20 | 1332.46 | 1574.74 | 1817.00 | 2180.40 | 2543.80 |
| Bala | 731.70 | 853.65 | 975.60 | 1097.55 | 1341.45 | 1585.35 | 1829.25 | 2195.10 | 2560.95 |
| Bangor | 758.75 | 885.22 | 1011.67 | 1138.13 | 1391.04 | 1643.97 | 1896.88 | 2276.26 | 2655.64 |
| Beddgelert | 727.78 | 849.08 | 970.37 | 1091.67 | 1334.26 | 1576.86 | 1819.45 | 2183.34 | 2547.23 |
| Bethesda | 737.03 | 859.87 | 982.70 | 1105.54 | 1351.21 | 1596.89 | 1842.57 | 2211.08 | 2579.59 |
| Betws Garmon | 720.97 | 841.13 | 961.29 | 1081.45 | 1321.77 | 1562.10 | 1802.42 | 2162.90 | 2523.38 |
| Bontnewydd | 732.63 | 854.74 | 976.84 | 1098.95 | 1343.16 | 1587.38 | 1831.58 | 2197.90 | 2564.22 |
| Botwnnog | 723.69 | 844.30 | 964.91 | 1085.53 | 1326.76 | 1567.99 | 1809.22 | 2171.06 | 2532.90 |
| Brithdir a Llanfachreth | 729.05 | 850.57 | 972.07 | 1093.58 | 1336.59 | 1579.62 | 1822.63 | 2187.16 | 2551.69 |
| Bryncrug | 728.02 | 849.36 | 970.69 | 1092.03 | 1334.70 | 1577.38 | 1820.05 | 2184.06 | 2548.07 |
| Buan | 728.47 | 849.88 | 971.29 | 1092.70 | 1335.52 | 1578.35 | 1821.17 | 2185.40 | 2549.63 |
| Caernarfon | 755.01 | 880.85 | 1006.68 | 1132.52 | 1384.19 | 1635.87 | 1887.53 | 2265.04 | 2642.55 |
| Clynnog Fawr | 725.08 | 845.93 | 966.77 | 1087.62 | 1329.31 | 1571.01 | 1812.70 | 2175.24 | 2537.78 |
| Corris | 731.01 | 852.85 | 974.68 | 1096.52 | 1340.19 | 1583.87 | 1827.53 | 2193.04 | 2558.55 |
| Criccieth | 738.06 | 861.07 | 984.08 | 1107.09 | 1353.11 | 1599.13 | 1845.15 | 2214.18 | 2583.21 |
| Dolbenmaen | 728.83 | 850.31 | 971.77 | 1093.25 | 1336.19 | 1579.14 | 1822.08 | 2186.50 | 2550.92 |
| Dolgellau | 740.74 | 864.20 | 987.65 | 1111.11 | 1358.02 | 1604.94 | 1851.85 | 2222.22 | 2592.59 |
| Dyffryn Ardudwy | 731.06 | 852.91 | 974.74 | 1096.59 | 1340.27 | 1583.97 | 1827.65 | 2193.18 | 2558.71 |
| Ffestiniog | 741.91 | 865.57 | 989.21 | 1112.87 | 1360.17 | 1607.48 | 1854.78 | 2225.74 | 2596.70 |
| Harlech | 728.65 | 850.10 | 971.53 | 1092.98 | 1335.86 | 1578.75 | 1821.63 | 2185.96 | 2550.29 |
| Llanaelhaearn | 728.52 | 849.94 | 971.36 | 1092.78 | 1335.62 | 1578.46 | 1821.30 | 2185.56 | 2549.82 |
| Llanbedr | 731.27 | 853.16 | 975.03 | 1096.91 | 1340.66 | 1584.43 | 1828.18 | 2193.82 | 2559.46 |
| Llanbedrog | 728.35 | 849.75 | 971.13 | 1092.53 | 1335.31 | 1578.10 | 1820.88 | 2185.06 | 2549.24 |
| Llanberis | 730.05 | 851.73 | 973.40 | 1095.08 | 1338.43 | 1581.79 | 1825.13 | 2190.16 | 2555.19 |
| Llanddeiniolen | 721.05 | 841.23 | 961.40 | 1081.58 | 1321.93 | 1562.29 | 1802.63 | 2163.16 | 2523.69 |
| Llandderfel | 723.75 | 844.37 | 964.99 | 1085.62 | 1326.87 | 1568.12 | 1809.37 | 2171.24 | 2533.11 |
| Llandwrog | 732.71 | 854.84 | 976.95 | 1099.07 | 1343.30 | 1587.55 | 1831.78 | 2198.14 | 2564.50 |
| Llandygai | 729.37 | 850.93 | 972.49 | 1094.05 | 1337.17 | 1580.30 | 1823.42 | 2188.10 | 2552.78 |
| Llanegryn | 739.97 | 863.30 | 986.62 | 1109.95 | 1356.60 | 1603.26 | 1849.92 | 2219.90 | 2589.88 |
| Llanelltyd | 731.17 | 853.04 | 974.89 | 1096.76 | 1340.48 | 1584.21 | 1827.93 | 2193.52 | 2559.11 |
| Llanengan | 726.03 | 847.04 | 968.04 | 1089.05 | 1331.06 | 1573.08 | 1815.08 | 2178.10 | 2541.12 |
| Llanfair | 724.89 | 845.71 | 966.52 | 1087.34 | 1328.97 | 1570.61 | 1812.23 | 2174.68 | 2537.13 |
| Llanfihangel y Pennant | 728.79 | 850.25 | 971.71 | 1093.18 | 1336.11 | 1579.04 | 1821.97 | 2186.36 | 2550.75 |
| Llanfrothen | 727.33 | 848.56 | 969.77 | 1091.00 | 1333.44 | 1575.89 | 1818.33 | 2182.00 | 2545.67 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llangelynnin | 727.91 | 849.23 | 970.54 | 1091.86 | 1334.49 | 1577.13 | 1819.77 | 2183.72 | 2547.67 |
| Llangywair | 726.01 | 847.01 | 968.01 | 1089.01 | 1331.01 | 1573.02 | 1815.02 | 2178.02 | 2541.02 |
| Llanllechid | 722.99 | 843.49 | 963.98 | 1084.48 | 1325.47 | 1566.47 | 1807.47 | 2168.96 | 2530.45 |
| Llanllyfni | 734.91 | 857.39 | 979.87 | 1102.36 | 1347.33 | 1592.30 | 1837.27 | 2204.72 | 2572.17 |
| Llannor | 725.65 | 846.59 | 967.53 | 1088.47 | 1330.35 | 1572.24 | 1814.12 | 2176.94 | 2539.76 |
| Llanrug | 727.81 | 849.11 | 970.41 | 1091.71 | 1334.31 | 1576.92 | 1819.52 | 2183.42 | 2547.32 |
| Llanuwchllyn | 727.46 | 848.71 | 969.94 | 1091.19 | 1333.67 | 1576.17 | 1818.65 | 2182.38 | 2546.11 |
| Llanwnda | 727.81 | 849.11 | 970.41 | 1091.71 | 1334.31 | 1576.92 | 1819.52 | 2183.42 | 2547.32 |
| Llanycil | 725.74 | 846.70 | 967.65 | 1088.61 | 1330.52 | 1572.44 | 1814.35 | 2177.22 | 2540.09 |
| Llanystumdwy | 725.50 | 846.42 | 967.33 | 1088.25 | 1330.08 | 1571.92 | 1813.75 | 2176.50 | 2539.25 |
| Maentwrog | 725.51 | 846.44 | 967.35 | 1088.27 | 1330.10 | 1571.95 | 1813.78 | 2176.54 | 2539.30 |
| Mawddwy | 724.39 | 845.12 | 965.85 | 1086.58 | 1328.04 | 1569.51 | 1810.97 | 2173.16 | 2535.35 |
| Nefyn | 729.78 | 851.41 | 973.04 | 1094.67 | 1337.93 | 1581.19 | 1824.45 | 2189.34 | 2554.23 |
| Pennal | 725.85 | 846.83 | 967.80 | 1088.78 | 1330.73 | 1572.69 | 1814.63 | 2177.56 | 2540.49 |
| Penrhyndeudraeth | 744.39 | 868.45 | 992.51 | 1116.58 | 1364.71 | 1612.84 | 1860.97 | 2233.16 | 2605.35 |
| Pentir | 727.95 | 849.27 | 970.59 | 1091.92 | 1334.57 | 1577.22 | 1819.87 | 2183.84 | 2547.81 |
| Pistyll | 730.39 | 852.12 | 973.85 | 1095.58 | 1339.04 | 1582.51 | 1825.97 | 2191.16 | 2556.35 |
| Porthmadog | 732.42 | 854.49 | 976.56 | 1098.63 | 1342.77 | 1586.91 | 1831.05 | 2197.26 | 2563.47 |
| Pwllheli | 740.03 | 863.37 | 986.70 | 1110.04 | 1356.71 | 1603.39 | 1850.07 | 2220.08 | 2590.09 |
| Talsarnau | 735.16 | 857.69 | 980.21 | 1102.74 | 1347.79 | 1592.85 | 1837.90 | 2205.48 | 2573.06 |
| Trawsfynydd | 732.41 | 854.48 | 976.54 | 1098.61 | 1342.74 | 1586.88 | 1831.02 | 2197.22 | 2563.42 |
| Tudweiliog | 725.19 | 846.06 | 966.92 | 1087.79 | 1329.52 | 1571.26 | 1812.98 | 2175.58 | 2538.18 |
| Tywyn | 732.96 | 855.12 | 977.28 | 1099.44 | 1343.76 | 1588.08 | 1832.40 | 2198.88 | 2565.36 |
| Waunfawr | 724.67 | 845.45 | 966.22 | 1087.00 | 1328.55 | 1570.11 | 1811.67 | 2174.00 | 2536.33 |
| Y Felinheli | 730.29 | 852.01 | 973.72 | 1095.44 | 1338.87 | 1582.31 | 1825.73 | 2190.88 | 2556.03 |
| Y Ganllwyd | 737.75 | 860.72 | 983.67 | 1106.63 | 1352.54 | 1598.47 | 1844.38 | 2213.26 | 2582.14 |